**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol**

**Dyddiad:**

4ydd Ionawr 2024.

**Presennol**

John Jones (Cadeirydd), Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Huw Pritchard, Sarah Jones; Raymond Jones (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Michael Jones, Enid Egginton, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Richard Williams, Gwilym Evans (Prenteg)

**Ymddiheuriadau**

Cynghorydd June Jones, Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd); Jess Williams ac Iddon Edwards (Penmorfa);

**Datgan Buddiant**

RP eitem 7.
MLW eitem 14.

**Penderfyniadau**

Mynwent Bethel - Adroddwyd bod yna fedd sydd angen sylw yno. Clerc i gysylltu gyda'r teulu i ofyn iddynt roi sylw i'r bedd.

Mynwent Prenteg - Adroddwyd fod y bin angen ei wagio. Soniwyd fod gwastraff wedi bod yna ers tipyn a bod yna dipyn o waith clirio i'w wneud yno. Clerc i gysylltu hefo Rhys o Madog Gardencare i wneud y gwaith. MLW yn cynnig a JT yn eilio.

Chwarel Gorseddau – Soniwyd fod y llwybr o Dyddyn Mawr at y chwarel wedi cael sylw yn y papur ac ar wefannau cymdeithasol yn ddiweddar. Adroddwyd fod y llwybr yma yn hynod o wlyb o dan draed. Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i weld os oes modd cael gwneud unrhyw beth i wella hyn.

Praesept 2024/2025 - Penderfynwyd cadw'r praesept yn £18,000. RP yn cynnig ac MLW yn eilio.

Asesiad Risg - Trafodwyd yr asesiad risg. Penderfynwyd rhoi mesurau rheoli i mewn ar gyfer bancio ar-lein a hefyd rhag twyll a sgamiau.

Cais Cynllunio - NP2/16/L304H – Tŷ'r Ysgol, Cwm Pennant, Garndolbenmaen, LL51 9AX – Codi estyniad unllawr i annedd, newid defnydd tir amaethyddol i gwrtil preswyl a chodi dwy sied bren. Ymatebwyd i ddweud nad oedd unrhyw sylwad ar wahân fod yr ymchwil ystlumod wedi'i ddyddio.